# SL(6)711 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025

## Cefndir a Diben

Y Rheoliadau hyn yw'r chweched rheoliadau cychwyn sydd wedi eu gwneud o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn Rhan 3 (diwygio Deddf Adeiladu 1984) o'r Ddeddf, ac Atodlen 5 iddi, ar 1 Gorffennaf 2026 o ran Cymru.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Mae testun Saesneg y Rheoliadau yn dod â darpariaethau Rhan 3 o'r Ddeddf, ac Atodlen 5 iddi, i rym ar 1 Gorffennaf 2026 o ran Cymru. Fodd bynnag, mae testun Cymraeg y Rheoliadau yn dangos XXXX yn lle 1 Gorffennaf 2026 ym mhob lle y mae'n digwydd.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwall hwn ac mae'n bwriadu gosod Rheoliadau diwygio cyn y dyddiad dod i rym, sef 1 Gorffennaf 2026, i gywiro'r testun Cymraeg.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.